WG35 S. 78

# MYFYRDOD

AR

# Farwolaeth y Saint,

A'U

## DEDWYDDWCH YN Y NEFOEDD:

A GYFANSODDWYD AR YR ACHLYSUR O

FARWOLAETH

JOHN MAB WILLIAM HUGHES,

*Gweinidog yr Efengyl yn Dinas y Mowddwy;*

YR HWN

A YMADAWODD A'R BYD,

*Mai* 3, 1811, *yn* 15 *Mlwydd Oed.*

LLE Y COFFEIR HEFYD AM

FARWOLAETH

AMRYW WEINIDOGION YR EFENGYL

A YMADAWODD Y BLYNYDDOEDD DIWEDDAF

O OGLEDD CYMRU.

BALA,

ARGRAFFEDIG GAN R. SAUNDERSON,

1811.

4h1 8546

Y205310159

## AT Y DARLLENYDD.

Nid oeddwn, wrth gyfansoddi y llinellau canlynol, yn bwriadu eu hargraffu; ond ar ddymuniad llawer o'm cyfeillion, a dysgwyliad y byddant o fendith i'r rhai a'u darlleno, ond yn enwedig er mwyn yr ieuenctid, yr wyf yn eu danfon i blith fy nghydwladwyr, gan eu gorchymyn i fendith yr Arglwydd.

W. HUGHES.

---ooo---

*D. S.* Yr achlysur o farwolaeth fy mab, oedd, iddo gael ei friwo gan *gert;* ond bu byw wythnos a diwrnod wedi hyny.

## *MYFYRDOD, &c.*

MAE rhyw dynfa yn fy enaid,
At y gwir ffyddloniaid sy'
Gwedi gadael byd gweledig,
Yn canu 'n anllygredig fry,
I'r hwn a'u carodd, ac a'u prynodd,
Ac a'u golchodd yn ei waed;
Ac a'u dyg i'r goruchafion,
A'u holl elynion dan eu traed.

Abel gyfiawn oedd y cyntaf
O hil Adda aeth i'r nef;
Aneirif dorf o'r holl genedloedd,
Yno a'i canlynodd ef,
O Batriarchiaid bore o'r cynfyd,
Prophwydi hefyd gyda hwy;
Apostolion a Merthyron,
A duwiolion fwy na mwy.

Mae yno lawer o'm cyfeillion,
 Duwiol, ffyddlawn, yn y ffydd,
A fu yma hir flynyddau,
 Yn dyodde' pwys a gwres y dydd;
Gweinidogion diwyd, ffyddlawn,
 Gwir genadon yn eu hoes,
Gwedi darfod eu holl lafur,
 Yn gorphwys heb na chur na loes.

Amryw sydd o ogledd Cymru,
 Wedi blaenu 'r ochr draw,
O'm brodyr yn y weinidogaeth,
 'Rwy' finnau a phen fy nhaith gerllaw:
O am allu bod yn ffyddlawn,
 Tra bwyf yma y'ngwinllan Duw;
Fel y caffwyf yn eu cwm'ni,
 'R ochr draw drag'wyddol fyw.

Evan Williams gynt o'r Bala,
 A William Thomas aeth o'r byd;
Harris anwyl o Bwllheli,
 A fu fel tad i mi ryw hyd;
Richard Tibbot, a'i nai Abr'am,
 Daniel Llwyd sydd yn y bedd;
Jenkin Lewis o Lanfyllin,
 A Dafydd Richard yr un wedd.

Dafydd Davies fu 'n Nhreffynon,
 Y'ngwlad y Saeson aeth i'r bedd;
Pugh o'r Brithdir yn ei flodau,
 Darodd angeu â min ei gledd,
Pan oedd yn ei ddefnyddioldeb,
 A sirioldeb ar ei waith;
Er mawr alar i laweroedd,
 Fe orphenodd ar ei daith.

Coll'som frodyr a chwiorydd,
O'r eglwysydd yma a thraw;
Er mor gu ac anwyl oeddent,
Angeu a'u cafodd dan ei law:
Gwerthfawr iawn a melys ydoedd,
Eu cyfeillach lawer tro;
Ond melysach fydd o lawer,
Pan gwrddom yn y nefol fro.

Er pan ydwyf yn y Dinas,
Yn llafurio y'ngwinllan Crist,
Fe wnaeth angeu lawer rhwygiad,
A barodd i mi fod yn drist:
Ond wrth gofio 'r gair, mai elw
Ydyw marw i'r duwiol rai,
'R ym y'nghanol y galaru,
Etto am hyn yn llawenâu.

Y'mhlith ereill wyf yn gofio,
'Rwy 'n cofio Ioan bach o hyd,
'R hwn oedd i mi 'n anwyl blentyn,
Galwad *sydyn* ga'dd o'r byd:
Gan mor chwerw oedd yr amgylchiad,
Gwnaeth i'm henaid fyn'd yn sỳn,
Ac heb genyf air i'w dd'wedyd,
Ond ti, Arglwydd, wnaethost hyn.

Bu arnom ofnau rai blynyddau,
Mai marw fyddai 'n llwyr ddiras,
Gan mor gryfed oedd ei duedd,
I ddilyn pechod ffiaidd cas:
Diolch byth, caed lle i obeithio,
I Dduw ei gipio ef o'r tân,
A'i gyfnewid mewn gwirionedd,
Trwy waith ei sanctaidd Ysbryd Glân.

'R wyf yn gwel'd mai benthyg ydoedd,
  I ni roddodd Duw yn rhad;
Duw a'i cym'rodd yw ein hyder,
  Ato ei hun i'r nefol wlad:
Diolch 'r o'em a llawenychu,
  Am ei eni ef i'r byd,
Diolch ddylem 'r wyf yn addef,
  Am ddarfod ei ofidie' i gyd.

Pymtheg mlwydd ac agos chwarter,
  A ga'dd o amser yma i fyw;
A mwy nag un y bu 'n proffesu,
  Crefydd ac efengyl Duw:
Ca'dd ei gadw heb w'radwyddo,
  'R enw mawr oedd arno fe,
Ac ni ddygodd neb ei goron,
  Ond ca'dd yn ffyddlawn gadw ei le:

Mi feddyliais fod yr Arglwydd,
  Am wnëyd o hono ddefnydd mawr,
Yn ei eglwys ar y ddaear,
  Cyn ei guddio yn llwch y llawr;
Ond nid felly 'r oedd Duw 'n trefnu,
  Ei addfedu wnaeth efe,
I gael rhan o etifeddiaeth,
  Seintiau perffaith yn y ne'.

Mae ffyrdd Duw yn anchwiliadwy,
  Yn y moroedd dyfnion maith;
A'i feddyliau 'n uwch na'r nefoedd,
  Ni fedrwn eu hamgyffred chwaith:
Braint, y'mhob rhyw droion dyrys,
  Yw d'wëyd yn barchus tra f'om byw;
Gwnaed a fyddo da 'n ei olwg,
  Efe mae 'n amlwg sydd yn Dduw.

Anhawdd iawn i mi anghofio,
  Am dano yn ei gystudd blin,
Fel 'r oedd Duw yn gwenu arno,
  A rhoi 'ddo o gusanau ei fin:
Pan oedd angeu 'n gweithio chwerwa',
  Etto fe ddywedai 'n hy',
" Ond ni byddai 'n hir cyn gorphen,
  " Ddim yn hir cyn lànio fry."

Dyma ei eiriau 'n wyneb angeu,
  " Mi wn fod genyf Brynwr byw;
" Iesu Grist, wedi groeshoelio,
  " Digon, digon, digon yw!
" Nid oes genyf ond dy allu
  " Mawr, i'm nerthu fyn'd y'mlaen;
" Fy unig rym yw 'th iechydwriaeth,
  " A'th fuddugoliaeth yw fy nghân."

Dywedodd fod yr Iesu 'n gyfaill
  Can mil gwell na mam na thad;
Hawdd ei gael y'mhob cyfyngder,
  Ffyddlawn i'w addewid rad:
Yn medru maddeu a chuddio beiau,
  Ac o'i wir fodd yn trugarâu,
Wrth y pena' o bechaduriaid,
  Ië 'r annheilyngaf rai.

Fel 'r oedd angeu 'n gweithio 'n drymach,
  Ymdrechai 'n daerach gyda Duw;
Dywedodd " nid wy 'n ofni marw,
  " Ac nid oes arnaf eisiau byw:
" Er wrth feddwl croesi 'r afon,
  " Fod fy nghalon i mewn braw,
" Etto er hyn yr wy 'n hiraethu,
  " Am gael bod yr ochr draw."

Yn ostyngedig cyfaddefodd,
  Mai cael ei ddamnio haeddodd ef;
Er hyn fod haeddiant Crist yn ddigon.
  I'w ddwyn i mewn i deyrnas nef:
A chan bwyso ar ei fynwes,
  Fe orphenodd ymdrech deg;
Y trydydd dydd o Mai fe hunodd,
  Mil wyth gant ac un-ar-ddeg.

Nid wy 'n medru ond prin ddych'mygu,
  'R gwaith y mae 'n gyflawni fry;
Caru Iesu a'i ryfeddu,
  A'i foliannu gyda 'r llu:
Gwel'd rhyw fyrdd o ryfeddodau,
  Yn ei angeu gwerthfawr drud;
Gwledda ar ei iechydwriaeth,
  Maent yn berffaith yno i gyd.

Mae 'i gorph yn gorwedd yn y Sarneu,
  Hyd fore 'r adgyfodiad ddydd,
Pan y cano 'r udgorn ola',
  I'w ddwyn o rwymau angeu 'n rhydd:
Melys cofio am y bore,
  Y dinystrir angeu a'r bedd,
Ac y daw y gwaredigion
  I Sïon oll, yn hardd eu gwedd.

Nid gwiw i ni ddysgwyl mwyach,
  Gael ei gyfeillach yn y byd;
Mae 'n hofnau am dano wedi darfod,
  A'n gofalon oll i gyd:
Brysio ar ei ol yr ydym,
  Tynu 'n gyflym tua 'r bedd,
O am gael ein llwyr addfedu,
  Fod gyda Iesu 'n gwel'd ei wedd.

Cofiwch ie'nctid, yn eich blodau,
Hardd eu golwg yn y byd,
I fod angeu a barn yn dyfod,
I'ch cyfarfod oll i gyd;
Ymofynwch am wir grefydd,
Y'moreuddydd bywyd brau,
Rhag eich cael chwi yn y diwedd,
A drws trugaredd wedi gau.

Na freuddwydiwch am flynyddau,
O bleserau yn y byd;
Nid yw 'ch dyddiau ond megys dyrnfedd,
Tarth a gwagedd oll i gyd:
Mae 'n llawn bryd i bawb ddihuno,
Cyn y delo angeu du;
Ac ymofyn am barodrwydd,
I'r trigfanau dedwydd fry.

DIWEDD.

John Owen
Gelli Llanbrynmair

------ooo------

*Bala, argraffedig gan R. Saunderson.*